# Cenn@d

MEDI 11 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 185


## Dirwyn Mudiad Addysg Grefyddol Cymru i ben

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Arbennig o MAGC drwy gyfrwng Zoom ddydd Llun, 29 Gorffennaf. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Bethan Evans (Llywydd Anrhydeddus MAGC).

Roedd y cyfarfod wedi ei gynnull yn dilyn cryn ymgynghori a thrafod. Yn wir cychwynnwyd y drafodaeth ar y mater hwn dros ddeng mlynedd yn ôl. Roedd nifer o ffactorau i'w hystyried, gan gynnwys newidiadau mawr ym myd addysg a diflaniad ymgynghorwyr sirol mewn addysg grefyddol a'r mwyafrif llethol o'r Cynghorau wedi peidio cyfrannu at gynnal MAGC.

Cyfeiriwyd at adroddiad a gyflwynwyd gan yr Ymddiriedolwyr i gyfarfod Cyngor MAGC ar 12 Tachwedd 2014. Derbyniwyd yr adroddiad, ar wahân i un cymal, sef y newid i barhau gyda *Syniadau AG*. Rhagwelwyd y byddai'r trefniant yn parhau am tua 10 mlynedd. Llwyddwyd i gyhoeddi *Syniadau AG/RE Ideas* hyd at 2020–21 ond rhoddodd y pandemig derfyn ar bopeth ac nid adfywiwyd wedyn. Parhawyd i fynychu Cymdeithas CYSAGauC; Panel Ymgynghorol Cenedlaethol dros Addysg Grefyddol ac aelodaeth o'r Religious Education Council drwy berson Paul Morgan. Roedd yr Ymddiriedolwyr yn sylweddoli bod MAGC wedi edwino ar ei draed ac felly penderfynasant nad oedd opsiwn ond dirwyn MAGC i ben. Roedd hyn yn gam gofidus iawn iddynt gan eu bod wedi cael cyswllt â MAGC ers degawdau.

Ymgynghorwyd â'r Comisiwn Elusennau a'u prif gyfarwyddyd oedd: "Byddwn yn awgrymu eich bod yn adolygu ein canllawiau, yn ogystal â dogfen lywodraethol eich elusen wrth ystyried ble i drosglwyddo'ch cronfeydd sy'n weddill. Dylai'r arian sy'n weddill gael ei drosglwyddo i elusen arall sydd â'r un nod, neu nodau tebyg â'ch nodau chi."

O ystyried y cymal olaf daeth yr Ymddiriedolwyr i'r casgliad mai Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru (CYS) oedd yr elusen amlwg oedd yn cyflawni'r gofyn yma. Nod cyntaf MAGC yw: hyrwyddo a datblygu addysg Gristnogol ac addysg yn y credoau eraill,




ynghyd â'u hoblygiadau yng Nghymru, gyda'r pwyslais ar y cyfleoedd sydd ar gael i blant a phobl ifanc, ynghyd â phawb a wnelo â'u datblygiad, gan roi sylw arbennig i draddodiadau ac ieithoedd yng Nghymru. Nod cyntaf CYS yw: Hybu addysg grefyddol a hyrwyddo astudiaeth o grefydd ac astudiaeth o addysg grefyddol trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

I'r Cyfarfod o'r Cyngor roedd yr Ymddiriedolwyr yn argymell Cyngor MAGC i gefnogi eu penderfyniad:

1. i ddirwyn MAGC i ben

2. i drosglwyddo holl asedau MAGC, gan gynnwys yr arian fydd mewn llaw, i Gyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru (CYS) ond eu bod yn derbyn yr arian fel arian "Dynodedig/ Cyfyngedig" i'w ddefnyddio i hybu addysg grefyddol yn ysgolion sirol Cymru. Cytunwyd hefyd y byddai'n cyhoeddi yn y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg os yw hynny'n briodol. Cytunodd CYS â hyn a hefyd i ddefnyddio'r arian a drosglwyddir o fewn cyfnod o tua 5 mlynedd a hyd y mae'n ymarferol bosibl, iddynt warchod cyhoeddiadau MAGC o'r gorffennol drwy gyfrwng gwefan ddynodedig.

Yng Nghyfarfod y Cyngor cafwyd croeso a rhagarweiniad gan y Cadeirydd, gan gyfeirio at y ddogfennaeth a gylchredwyd ymlaen llaw oedd yn gosod allan y cefndir a'r drefn a ddilynwyd. Cyflwynwyd y ddau gynnig ar wahân gan yr Ymddiriedolwyr. Roedd y bleidlais i dderbyn y cynigion yn unfrydol. Diolchodd Aled Davies am yr ymddiriedaeth a roddwyd yn CYS a chyflwynodd sylwadau adeiladol ar ran CYS gan nodi'r cydweithio yn y gorffennol a'r syniadau at y dyfodol.

Wrth gloi'r cyfarfod nododd y Cadeirydd fod Sali Roberts (Ysgrifennydd MAGC ers 1996), oherwydd cyflwr ei hiechyd, yn ymddiheuro na allai fod yn bresennol. Aeth ymlaen i ddweud y gallem ymfalchïo yn yr hyn a gyflawnwyd gan MAGC dros y degawdau. Diolchodd i bawb am eu cyfraniadau ac yn arbennig i Rheinallt am ei holl waith yn cydlynu hyd at heddiw. Nodwyd iddo gyflawni cynifer o swyddi dros gyfnod anodd yn ein hanes fel mudiad. Adleisiwyd y diolch am gyfraniad pawb gan Nia Williams.

Nodwyd gwerthfawrogiad o gyfraniad Paul, sydd wedi cynrychioli MAGC ar Gymdeithas CYSAGauCymru, NAPfRE ac RE Council dros y degawd diwethaf.

*Bethan Evans a Rheinallt Thomas*
*ar ran yr Ymddiriedolwyr*

O.N. Mae'r gwaith o warchod cyhoeddiadau MAGC eisoes wedi dechrau – ewch i weld yn gair.cymru/magcymru. Mae popeth sydd yno i'w ddefnyddio yn rhad ac am ddim.


Torri Bara gyda'ch Aelod Seneddol
**Tudalen 4**

O Gefn Gwlad
**Tudalen 5**


Cynhaeaf o Obaith yn Zimbabwe – Apêl Talentau Gobaith, Undeb Bedyddwyr Cymru
**Tudalen 7**

**Gyda thymor yr Ysgol Sul yn ailddechrau wedi seibiant yr haf, mae Cyngor yr Ysgolion Sul yn falch o gyhoeddi y bydd yna gynllun a gwersi ar gael ar gyfer pob oed. Bydd y deunydd hefyd yn addas ar gyfer astudiaeth bersonol neu astudiaeth grŵp.**

**O ran y plant, fe fydd adran ar wefan gair.cymru yn cynnig stori ar gyfer pob wythnos, gyda digon o adnoddau ar gyfer pob oed i'w cael yn rhad ac am ddim. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth yn *Cenn@d* a fydd yn nodi manylion am wers yr wythnos; gweler yr un gyntaf ar dudalen 3 yn y rhifyn hwn.**

**Bydd yr oedolion eleni yn troi at gyfrol Gareth Lloyd Jones, gan ddechrau tymor yr hydref gyda Llyfr Ruth, cyn troi i gyfeiriad Llyfr y Pregethwr yn gynnar yn y flwyddyn newydd.**

**Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Parch. Bryn Williams am gydsynio i baratoi gwersi wythnosol yn *Cenn@d* ar ein cyfer.**




# *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr*

gan Gareth Lloyd Jones (Cyhoeddiadau'r Gair)

## Rhagarweiniad i Lyfr Ruth

Mae Llyfr Ruth yn cael ei ystyried yn 'em lenyddol' gan ddiwinyddion, beirdd a llenorion. Yn ddiddorol iawn, Ruth ac Esther yw'r unig ddau lyfr yn y Beibl lle ceir gwraig yn brif gymeriad.

O ran dyddiad, y gred draddodiadol ydoedd mai yn union ar ôl marwolaeth Josua a dechrau cyfnod y Barnwyr y perthyn y llyfr (1150–1100 CC) ac mai Samuel oedd yr awdur. Ond mae barn fwy diweddar yn cyfeirio at ddyddiad yn dilyn y Gaethglud i Fabilon, a'r awdur yn anhysbys (tua 500 CC).

Adrodd hanes teulu sy'n byw yn ardal Bethlehem a wneir yn Llyfr Ruth, gan ddisgrifio ôl llaw Duw arnynt. Ynddo, darllenwn am ŵr a gwraig yn symud o Fethlehem i wlad Moab. Roedd gwlad Moab yn ddyffryn eang a ffrwythlon, yn lle addas i dyfu grawn ac yn dir pori i ddefaid a geifr, ac yn ymestyn i'r dwyrain o'r Môr Marw. Yma cawn hanes am briodas rhwng dau Iddew a dwy wraig o wlad Moab. Ond, o gyrraedd diwedd yr hanes, gwelwn fod un ohonynt, sef Ruth, yn dod i gael ei gosod yn llinach Iesu Grist. Gan mai Moabes oedd Ruth – mae hyn yn dangos apêl ehangach y Meseia – byddai nid yn unig yn gwaredu Israel ond yn cynnig gwaredigaeth i bawb ym mhob man.

I'r Iddew, mae Llyfr Ruth yn rhan o'r Megilloth (Y Pum Sgrôl), sef Caniad Solomon, Galarnad Jeremeia, Llyfr y Pregethwr, Esther a Ruth. Roedd yr Iddewon yn darllen llyfr Ruth yn ystod Gŵyl y Cynhaeaf (Gŵyl yr Wythnosau), sef gŵyl y Pentecost yn ddiweddarach.

Beth bynnag am ddyddiad y llyfr, mae'r hanes wedi ei osod yng nghyfnod y Barnwyr yn Israel, rhwng 1380 a 1050 CC.

Cyfnod o gilio oddi wrth yr Arglwydd a dychwelyd yn ôl ato oedd hwn, cyfnod pan oedd Duw yn codi arweinwyr amlwg fel Gideon a Samson i waredu'r bobl. Roedd hwn yn gyfnod tywyll, yn gyfnod o anfoesoldeb moesol, dirywiad ym mherthynas Duw a'i bobl ac o ddiffyg undod. Roedd yr Israeliaid wedi ymosod ar drefi'r Moabiaid a pheri chwerwedd oherwydd hynny. Roedd pobl Moab yn cael eu gweld fel disgynyddion plentyn Lot, nai Abraham, efo'i ferch ei hun. Felly, i'r Iddewon, doedd yna ddim urddas nac anrhydedd yn achau Ruth.

Ond disgrifio cyfnod o heddwch rhwng Israel a Moab y mae Llyfr Ruth, gan graffu yr un pryd ar hynt a helynt yr un teulu Iddewig yma.

Llyfr ydy Ruth sy'n adrodd am y canlynol:

- rhinwedd a daioni'n cael eu gwobrwyo;
- calon Ruth, a'i hawydd i wasanaethu ei theulu newydd ynghyd â Duw ei theulu newydd;
- diwydrwydd a gweithio'n galed yn dod ag urddas i fod yn dlawd;
- ymyrraeth Duw ym mywydau pobl gyffredin;
- y rheol Iddewig fod aelod o deulu'n diogelu aelod arall o'r teulu, a'r cyd-destun ehangach wedyn i ni mewn perthynas â'r diogelwch yn Iesu Grist;
- parchu dieithriaid, ffoaduriaid a gwragedd.

Yn y llyfr rydyn ni'n cyfarfod â phobl arbennig: Ruth ei hun, Naomi, Elimelech, Mahlon, Chilion, Orpa a Boas. Ynddo, cawn ein cyflwyno i'r gair 'mara'.

Bydd edrych ar yr adnodau isod yn ein cynorthwyo ar y dechrau fel hyn i ddeall mwy am Lyfr Ruth:

"Yr ydych chwithau i garu'r dieithryn, gan ichwi fod yn ddieithriaid yng ngwlad yr Aifft." (Deuteronomium 10:19)

"Y mae'r estron sy'n byw gyda thi i'w ystyried gennyt fel brodor o'ch plith; yr wyt i'w garu fel ti dy hun, oherwydd estroniaid fuoch chwi yng ngwlad yr Aifft. Myfi yw'r ARGLWYDD eich Duw." (Lefiticus 19:34)

" 'Melltith ar y sawl sy'n gwyro barn yn erbyn estron, amddifad neu weddw.' Y mae'r holl bobl i ddweud, 'Amen'." (Deuteronomium 27:19)

"Tad yr amddifaid ac amddiffynnydd y gweddwon yw Duw yn ei drigfan sanctaidd." (Salm 68: 5)

"Y mae'r ARGLWYDD yn gwylio dros y dieithriaid, ac yn cynnal y weddw a'r amddifad; y mae'n difetha ffordd y drygionus." (Salm 146:9)

"Oherwydd bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi, bûm yn sychedig a rhoesoch ddiod imi, bûm yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref." (Mathew 25:35)

"Cyfrannwch at reidiau'r saint, a byddwch barod eich lletygarwch i ddieithriaid." (Rhufeiniaid 12:13)

Disgrifiodd Goethe, y bardd enwog o'r Almaen ac un o feddylwyr mwyaf ei gyfnod (1749–1832), Lyfr Ruth fel, 'Y gwaith mwyaf prydferth a chyflawn mewn cyn lleied o eiriau.'

Mae Llyfr Ruth yn dangos y gwirionedd fod Duw ynglŷn â gweithio efo'i bobl ac o blaid ei bobl. Mae'r llyfr wedi ei osod yn ein Beibl i'n hannog a'n hadeiladu yn y ffydd, fel y byddwn yn adnabod cariad Duw tuag at ei bobl, ac er mwyn ein helpu ni i weld cynllun mawr Duw ar gyfer ein bywydau ninnau. Felly, beth am i ni wneud ein hunain yn barod ar gyfer y daith efo Ruth a Naomi gan geisio hefyd edrych yn fwy cyffredinol ar y cymeriadau eraill yn y llyfr, yn ogystal â dysgu am draddodiadau, diwylliannau a daearyddiaeth y cyfnod. Paratown ein hunain i gael ein hysbrydoli a'n hadeiladu wrth astudio Llyfr Ruth. Dyma fy ngweddi dros yr wythnosau nesaf.

**(Cyn dechrau ar y gwersi, cofiwch ddarllen y llyfr drwyddo – rhyw chwarter awr neu lai fydd hynny'n ei gymryd.)**

***Cwestiynau i'w trafod***

1. Beth ydy gwerth a grym stori? Pa un oedd y stori gyntaf i chi gofio'i chlywed?
2. Meddyliwch am hanes cymeriad o'r Hen Destament sydd wedi'ch cyffwrdd yn bersonol.
3. Beth ydy'ch disgwyliadau o astudio Llyfr Ruth?

*W. Bryn Williams*







## Gwersi Stori Duw

O 15 Medi ymlaen, byddwn yn cychwyn ar gyfres o wersi Beiblaidd a fydd ar gael yn rhad ac am ddim o wefan gair.cymru – a hynny er mwyn cefnogi gwaith plant ac ieuenctid yn ein heglwysi.

Byddwn yn gwneud hynny drwy ddilyn cyfres werslyfrau Stori Duw, lle ceir deunydd ar gyfer rhai rhwng 3 a 18 oed.

Bydd y gyfres o 44 gwers yn ein harwain drwy'r Beibl, a bydd digon o ddeunyddiau, gan gynnwys gwersi, storïau, gwaith crefft, taflenni gwaith, ffilmiau a gemau ar gael am ddim o'n gwefan. Mae modd prynu llyfrau gwersi i'r plant hefyd, cyfrolau o werslyfrau a llyfrau lliwio. Hefyd, mae modd defnyddio Beiblau Gweithgaredd gyda'r gyfres.

Bydd yr adrannau hyn yn cael eu datblygu o wythnos i wythnos o fis Medi ymlaen.

**Cliciwch ar y poster ar y chwith er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru**

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

## Pwyllgor Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

Cynhelir

## ENCIL

dan arweiniad y Parchedig Sian Elin Thomas, Crymych

dydd Iau, 26 Medi 2024

yng ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin

10.30–4 o'r gloch

Pris: £28
(cinio bwffe, coffi a the yn gynwysedig yn y pris)

Enwau i Eleri Davies (janeeleri@btinternet.com)
erbyn 16 Medi, os gwelwch yn dda

## Gair o gydymdeimlad

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed am farwolaeth y Parchg E. Lyn Rees, Saron, Rhydaman. Cyn iddo ymddeol, roedd Lyn wedi gwasanaethu'n ffyddlon fel Gweinidog yr Efengyl yn Saron ers ei ordeinio yn 1967. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Heulwen, a'r teulu yn eu galar a'u profedigaeth. Boed iddynt dderbyn yn helaeth o gysur yr Arglwydd.

*Judith Morris*
*Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru*

# Torri Bara gyda'ch Aelod Seneddol

'A gadewch i ni feddwl am ffyrdd i annog ein gilydd i ddangos cariad a gwneud daioni', Hebreaid 10:25.

Yn ystod Eisteddfod Rhondda Cynon Taf, lansiwyd adnodd newydd yn y Gymraeg gan Gymorth Cristnogol, sef 'Torri Bara gyda'ch Aelod Seneddol Newydd'.

Wrth i'n Haelodau Seneddol newydd setlo wedi'r Etholiad Cyffredinol, mae Cymorth Cristnogol yn galw arnom i fagu perthynas ac i ddechrau sgwrsio gyda'n cynrychiolwyr yn San Steffan.

Gyda newid mewn Llywodraeth, daw'r cyfle i ni roi ein ffydd ar waith ac annog y rhai mewn sefyllfaoedd o rym i sicrhau bod materion cyfiawnder byd-eang ar flaen eu hagenda.

Mae'r adnodd newydd (hefyd ar gael yn Saesneg: 'Breaking Bread with your new MP') yn ganllaw ar groesawu'r Aelod Seneddol newydd i'ch eglwys – p'un ai i fore coffi neu ginio cawl.

Yn ogystal â'r adnodd 'Torri Bara', mae yna hefyd adnoddau eraill sy'n egluro'r hyn y mae Cymorth Cristnogol yn galw ar lywodraeth newydd y Deyrnas Unedig i'w wneud. Er enghraifft, mae tair taflen gwybodaeth ar yr angen am heddwch, cyfiawnder dyled a chyfiawnder hinsawdd. Hefyd, mae yna gwrs o'r enw 'Taclo Tlodi' er mwyn helpu Cristnogion i ddeall materion tlodi a chyfiawnder a sut i siarad gyda chynrychiolwyr gwleidyddol amdanynt.

Ond yn ôl at 'Torri Bara'. Trwy wahodd yr Aelod Seneddol sydd newydd ei ethol i'ch eglwys i dorri bara a siarad am dlodi, gallech sbarduno perthynas ar gyfer trechu tlodi a allai bara am flynyddoedd i ddod.

Mae torri bara yn symbol o groeso, lletygarwch, gofal, didwylledd a heddwch. Wrth dorri bara, rydym yn adeiladu ac yn cryfhau ein perthynas ag eraill. Gall y prydau symlaf – hyd yn oed paned de a bisged – helpu i feithrin perthynas.

Mae'r weithred gyffredin a symbolaeth rhannu bara â dieithriaid yn amlwg mewn sawl rhan o'r Beibl. Byddai Iesu'n aml yn rhannu bara gyda'i gymdogion ac yn dod yn gyfaill iddynt. Fel gweithred ganolog y Swper Olaf, mae torri bara yn llawn arwyddocâd arbennig i Gristnogion.

I ganfod mwy, ewch i wefan Cymorth Cristnogol a chliciwch ar 'Get Involved', ac wedyn ar 'Campaigns'.




Diolch i'r arweinwyr eglwysig ac i bawb am arwyddo'r cerdyn ymgyrch yn yr Eisteddfod ac i ddisgyblion Ysgol Bro Caereinion, Llanfair Caereinion, am y gwaith celf ddefnyddiwyd ar flaen y cerdyn.











Staff a chefnogwyr Cymorth Cristnogol o Bontypridd yn cyfarfod eu Haelod Seneddol, Alex Davies-Jones, i alw am weithredu ar gyfiawnder hinsawdd, dyled a thros heddwch






# O Gefn Gwlad

## Medi

Na, nid Medi'r mis ond medi'r weithred, nid Medi'r enw ond medi'r ferf. Er, rhaid i mi gyfadde mod i'n hoff o'r mis hefyd. Hwn yn fy ieuenctid oedd mis y cynhaeaf ŷd, a bûm ar sawl achlysur yn codi ysgubau yn y meysydd, ar ffermydd Maesgwyn Ucha, Tŷ'n Celyn, a Maesgamedd Plas, ffermydd pwysig Gwyddelwern i mi bryd hynny. Roeddwn wrth fy modd yn y gwaith – chwe ysgub ar y tro a'u gosod ar eu traed yn ofalus i bwyso yn erbyn ei gilydd fel na fyddent yn cwympo. Rhwymo'r ŷd yn ysgubau hefyd cyn dyfod y beindar, ac roedd honno'n fedr arbennig a ddysgwyd imi gan y ffermwyr oedd bryd hynny yn sgilgar wrth y gwaith. Bûm hefyd yn cario ŷd yn Llŷn efo fy ewyrth, a hynny ar nos Sul, ond dim ond dan y lloer ar ôl hanner nos!

Doedd y gwaith o godi ysgubau ddim yn fêl i gyd, yn enwedig os oedd ysgall yn yr ŷd, a doedd neb byth yn gwisgo menig. Mae ysgall yn hoff o ŷd ac am ryw reswm yn tueddu i dyfu yn ei ganol. Hynny, falle, roes fod i'r ddihareb: 'A heuo ysgall, ni fed wenith,' dihareb y dylsai gwleidyddion pob gwlad fod yn ei gwybod a'i hystyried, yn hytrach na gwneud penderfyniadau tymor byr ffôl a diystyru'n llwyr ganlyniadau'r tymor hir.

Ond am arferiad cynhaeaf arall yr oeddwn am sôn – lloffa a gadael lloffion.

Ŷd oedd y symbol o gynhaeaf a'r arlwy hydrefol i'n cadw'n fyw trwy'r gaeaf, er bod cynhaeaf yn golygu casglu pob dim sy'n tyfu'n fwyd. Ŷd oedd o yng Ngwyddelwern, ac ni chynhelid y cyfarfodydd diolchgarwch yn y pentre (ar y cyd rhwng dau gapel) nes y byddai ffarm fwya'r ardal, sef Caenog, wedi cael yr ŷd. Doedd y trydydd dydd Llun yn Hydref, diwrnod traddodiadol y diolchgarwch, yn golygu dim i ni yr adeg honno!

A synnwn i ddim mai ni oedd yn ysgrythurol gywir gan fod i ŷd a'i gynaeafu bwysigrwydd neilltuol yn y Beibl, nid yn unig oherwydd dameg yr heuwr ond hefyd oherwydd un llyfr arbennig ynddo, sef Llyfr Ruth. Gall y gair lloffa erbyn hyn olygu chwilio yn rhywle am rywbeth, yn enwedig mewn llyfrgell am wybodaeth mewn llyfrau. Ond ei ystyr wreiddiol yw casglu tywysennau o ŷd ar ôl i'r medelwyr wneud eu gwaith. Yn yr hen fyd roedd yna reol na ddylai unrhyw un oedd yn trin y tir gasglu'r cyfan o'r ŷd ond gadael y gweddillion er mwyn i dlodion eu casglu. A'r arferiad o loffa ddaeth â Boas a Ruth at ei gilydd.

Mi wyddoch am y rheol yn y Beibl, efallai, a dyma hi, o Lyfr Lefiticus, ac o Feibl William Morgan: 'A phan fedoch gynhaeaf eich tir, na lwyr feda gyrrau dy faes, ac na loffa loffion dy gynhaeaf; gad hwynt i'r tlawd a'r dieithr.'

Llyfr y gyfraith yw Lefiticus, ac er nad oes sicrwydd pendant pryd y cyhoeddwyd o, y farn gyffredinol yw iddo gael ei ysgrifennu o



Llun: Unsplash.com

leia dair mil a hanner o flynyddoedd yn ôl. Mae ei gynnwys wedi achosi trafferthion mawr erioed – o wahardd i gleifion ymhlith llawer o dystion Jehofa gael trallwysiad gwaed i'w cadw'n fyw i gondemnio'n llwyr hoywon, boed ddynion neu ferched – gwrthod eu cydnabod a gwrthod eu priodi. Do, fe wnaeth y llythrenolwyr lawer o hafoc mewn bywyd erioed. Ac y maent yn dal wrthi, ac yn cefnogi Trump yn America.

Yr oedd y rheol i beidio casglu gweddillion yr ŷd, fodd bynnag, yn rheol ryfeddol o ystyrlon, o gysidro pryd y gwnaed hi. Erbyn heddiw a datblygiad y ddynoliaeth dros y miloedd blynyddoedd, nid yw'n rhyfedd, ac y mae i adael gweddillion yr ŷd ei ffurf fodern yn yr holl elusennau sy'n bodoli i weini cysur a chwarae teg i'r miliynau sydd eu hangen yn y byd. Ac y mae'r gadael oedd yn rheol yn Lefiticus yn orchymyn dwyfol, greda i, i ninnau gyfrannu hyd y gallwn at yr elusennau hyn.

A minnau'n byw yn Sarnau yr oed ydw i, a heb yr un tlotyn yn byw ar fy nghyfyl, neb yn y pentre mewn angen dybryd am ddim, does fawr y gallaf ei wneud wir ond cyfrannu at elusennau. Ac onid dyna neges Medi'r mis a medi'r cynhaeaf i ni: i ddiolch – ie, ond i ddiolch trwy gyfrannu hyd eithaf ein gallu, sydd yn rhan bwysig o addoli a chan gofio geiriau Crist: 'Yn gymaint â'i wneuthur i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, fe'i gwnaethoch i mi.'

Gofalwn hefyd nad oes ysgall yng ngweddill yr ŷd – dim cenfigen, dim bwriadau annheilwng, na dannod i eraill, nac ymffrost yn ein rhoi!

*Elfyn Pritchard*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***

**Sul, 15 Medi am 7.30yh – Cymuned Efail Isaf**

Lowri Morgan sy'n ymuno ag aelodau brwd y Tabernacl, Efail Isaf, i ddysgu sut mae'r capel wedi troi'n ganolbwynt i'r gymuned. Cawn gwrdd â gwirfoddolwyr diwyd sy'n rhoi Cristnogaeth ymarferol ar waith mewn projectau dyngarol a gardd gymunedol. A chawn ymuno â chynulleidfa'r Tabernacl i fwynhau rhai o'n hoff emynau.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***

**Sul, 15 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Rhun ap Robert, Bro Enlli

***Oedfa Radio Cymru***

**Sul, 15 Medi, am 12:00yp**

Oedfa dan ofal John Pritchard, Llanberis


EMYNAU COLL Y WERIN / LOST WELSH FOLK HYMNS
LLEUWEN
TAFOD ARIAN
MEDI / SEPTEMBER 2024
27 - Capel NANTGAREDIG SA23 7LE, 7pm
28 - Capel Gellionnen PONTARDAWE SA8 4RN, 6pm
29 - Capel y Tabernacl TREFORYS SA6 8BA 10am
30 - Capel y Tabernacl HENDY-GWYN SA34 0HP, 7pm
HYDREF / OCTOBER 2024
01 - Eglwys Llanfair ar y Bryn, LLANYMDDYFRI SA20 0HY, 7pm
02 - Capel y Tabernacl DOLGELLAU LL40 1SD, 7pm
03 - Eglwys Santes Mair Bryncroes PWLLHELI LL53 8EB, 7pm
04 - Capel Salem LLANDDOGED, 7pm
05 - Capel Caersalem CAERNARFON LL55 2RB, 7:30pm
06 - Capel Noddfa LLANBEDR PONT STEFFAN, 7pm
TACHWEDD / NOVEMBER 2024
17 - Capel BLAENANNERCH SA43 2AL, 10:30am
Capel Tabernacl MAENCLOCHOG SA66 7LD, 6.30pm
18 - Capel Bethlehem Newydd
PWLL TRAP Sanclêr SA33 4AN, 7pm
19 - Capel Llwyncelyn
ABERAERON SA46 0HJ, 7.30pm
20 - Capel y Rhos
LLANDRILLO YN RHOS LL28 4DH, 7pm
21 - Eglwys Gymraeg
Bro TREFFYNNON CH8 7UJ, 7pm
22 - Eglwys y Drindod Sanctaidd
PENRHYNDEUDRAETH, 7pm
23 - Capel Seilo NANT GWRTHEYRN, 7:30pm
24 - Capel Emaus BANGOR, 6:30pm
26 - Capel Salem, Cefncymerau,
PENTRE GWYNFRYN LL56, 7pm
Grafeg: Olwenn Manac'h
BRITISH COUNCIL | Wales Cymru
PYST
wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cymru
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Pays de Galles en France
Cymru yn Ffrainc
Wales in France

# Cynhaeaf o Obaith yn Zimbabwe – Apêl Talentau Gobaith, Undeb Bedyddwyr Cymru

Gyda'r tywydd yn dechrau troi'n hydrefol, daw cyfnod diolch am y cynhaeaf a chyfle i fyfyrio ar ein cyfrifoldeb i ofalu am ein byd a'n cyd-ddyn. O gwmpas y byd mae tywydd eithafol, yn aml oherwydd newid hinsawdd, yn achosi difrod costus i gartrefi, cymunedau a bywoliaethau. Adeg y cynhaeaf eleni mae miliynau o deuluoedd yn gweddïo am seibiant a diwedd ar sychder diddiwedd, llifogydd dinistriol a stormydd caled. Maent yn gweddïo y bydd eu cnydau'n tyfu fel y bydd stumogau eu plant yn llawn.

Gyda'n partneriaid, mae Cymorth Cristnogol yn gweithio i ganfod y dulliau mwyaf cynaliadwy i gefnogi pobl sydd yn wynebu'r argyfwng hinsawdd.

Cyn cyfarfodydd blynyddol yr haf, cafodd staff Cymorth Cristnogol Cymru ac Undeb Beddyddwyr Cymru gyfle arbennig i gael y newyddion diweddaraf gan weithwyr Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe. Dyma'r wlad sydd dan sylw yn apêl gyfredol Undeb Bedyddwyr Cymru, 'Talentau Gobaith', a dyma ffocws apêl Cynhaeaf Cymorth Cristnogol eleni hefyd.

Grace Mugebe yw Rheolwr Rhaglenni Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe a dywedodd fod y wlad yn profi'r sychder gwaethaf ers 40 mlynedd. Mae hyn oherwydd El Niño, term sy'n disgrifio cynhesu anghyffredin ar arwyneb y dŵr yn nwyrain y Môr Tawel. Y canlyniad yw bod dros 80% o'r boblogaeth mewn peryg o ddioddef newyn.

Eglurodd fod amryw o ffactorau'n gwneud bywyd yn anodd i bobl gyffredin Zimbabwe. Mae ansicrwydd economaidd yn achosi i weithwyr y wlad sydd â sgiliau arbenigol fudo i geisio gwaith sefydlog, gan effeithio yn ei dro ar y gwasanaeth iechyd ac addysg yn y wlad. Gofid cymdeithasol arall yw trais ar sail rhywedd. Mae trefnu priodasau merched ifanc iawn ar gynnydd, a hynny'n aml er mwyn lleihau'r baich economaidd ar deulu. Yn ogystal, mae diweithdra mewn canran uchel o ardaloedd amaethyddol Zimbabwe, gan adael pobl ifanc yn ddigalon ac oherwydd hynny'n troi at gyffuriau a sylweddau anghyfreithlon.

Meddai Grace: "Mae'r gwaith y mae Cymorth Cristnogol a'n partneriaid eisoes wedi'i wneud wedi chwarae rôl hanfodol o ran gwella bywoliaeth dros 27,000 o dyddynwyr. Mae'r rhaglen BRACT (sydd dan sylw yn apêl Talentau Gobaith UBC) wedi bod yn bwysig oherwydd y dull cynhwysfawr sy'n cyffwrdd pob rhan o ddatblygiad dynol a chymunedol."

Mae'r gwaith:

- yn cynorthwyo cymunedau i addasu i'r hinsawdd, gan geisio cyrraedd y bobl fwyaf bregus;
- yn hybu dulliau ffermio sy'n ystyried yr hinsawdd a chadwraeth ac yn datblygu sgiliau i bobl ifanc;
- yn annog ffermwyr i dyfu bwyd ar gyfer yr anifeiliaid, er mwyn gallu ymdopi yn y cyfnodau sych;
- yn annog diogelu ffynhonnau dŵr;
- yn helpu teuluoedd i gynyddu eu hincwm drwy ddefnyddio cynnyrch fferm, er enghraifft drwy ddysgu sut i lunio celfi a nwyddau lledr;
- yn atgyfnerthu cysylltiadau masnachol ac yn cefnogi allforio er mwyn cynyddu gwerth cynnyrch.



Ffermwyr yw Nyarai a'i deulu, ond maent yn wynebu heriau cymhleth wrth geisio gwneud digon o arian i gynnal y teulu - neu hyd yn oed wrth dyfu digon i'w bwydo'u hunain.

Mae arferion ffermio traddodiadol yn mynd yn fwyfwy aneffeithlon oherwydd tywydd eithafol a newid hinsawdd. O ganlyniad, mae ffermwyr profiadol a gwydn fel Nyarai yn gweld bod angen dysgu dulliau newydd o ffermio a hyd yn oed ddod o hyd i ffyrdd amgen o ennill incwm.

Ac yntau'n benderfynol o sicrhau dyfodol gwell i'w deulu, cafodd Nyarai gyfle i fod yn rhan o un o gynlluniau partneriaid Cymorth Cristnogol. Meddai: "Y prif beth oedd cael mwy o wybodaeth. Fe wnaethon ni ddysgu sut i roi camau yn eu lle i baratoi at sefyllfaoedd nad oedd yn bosib eu rhag-weld."

Dysgodd Nyarai sut i gynaeafu nifer o blanhigion gwyllt sy'n tyfu ar y bryniau ac yn y fforestydd o gwmpas ei dŷ, a hynny mewn ffordd gynaliadwy. Mae rhai o'r planhigion hyn yn cael eu defnyddio i wella maeth y teulu, ac eraill yn cael eu sychu i wneud moddion a'u gwerthu yn y farchnad. Gyda'r elw mae'r teulu wedi prynu geifr, bwydydd, blancedi a llestri. Drwy ddysgu am ffermio sy'n ystyried yr hinsawdd, mae ei deulu'n medru tyfu mwy o amrywiaeth o rawn a llysiau. "Mae ein bywoliaeth,

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Cynhaeaf o Obaith yn Zimbabwe – Apêl Talentau Gobaith, Undeb Bedyddwyr Cymru*
*(parhad o dudalen 7)*

ein deiet a'n dulliau ffermio wedi gwella llawer," meddai Nyarai. "Rydym yn gallu cynnal ein hunain mewn cyfnodau o sychder."

Mae cefnogi apêl 'Talentau Gobaith' yn trawsnewid bywydau pobl fel Nyarai.

Awn ati i fanteisio ar bob cyfle'r hydref hwn i fyfyrio ar y gwaith ac i feddwl yn syml ac yn greadigol sut y medrwn ni yng Nghymru wneud gwahaniaeth i Zimbabwe. Mae modd trefnu apêl codi arian, digwyddiadau neu oedfaon penodol, a chofiwch hefyd gymryd rhan yn y teithiau cerdded noddedig sy'n cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf hyn. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru: https://ubc.cymru/talentau-gobaith-2023-24/.

Mae yna hefyd sawl adnodd defnyddiol ar gael ar wefan Cymorth Cristnogol. Beth am drefnu swper cynhaeaf cysurlawn gan ddefnyddio'r rysáit *tagine* pwmpen cnau menyn a ffacbys, sydd ddim yn niweidiol i'r hinsawdd, wedi'i ysbrydoli gan fwyd o ogledd Affrica? Yn ogystal â'r rysáit mae yna daflen gweithgaredd, trefn gwasanaeth a gweddïau, ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ewch i www.caid.org.uk/harvestofhope.

Mae'r holl weithgarwch yn anogaeth fawr i dîm Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe a'n partneriaid. Meddai Aulline, Cyfarwyddwr Gwlad, Cymorth Cristnogol Zimbabwe, "Rydym yn falch iawn o glywed am eich holl weithgareddau a'r her "CERDDED!" 750+ milltir ar draws y ddwy wlad. Bydd eich cefnogaeth yn galluogi mwy o gymunedau i fod yn fwy gwydn a chael gwell gobaith. Diolch am sefyll gyda ni."

Yn eich gweddïau personol a chyhoeddus, cofiwch weddïo:

- dros fwy o gymorth dyngarol i bobl Zimbabwe yn ystod y cyfnod hwn o angen;
- y bydd ei phobl ifanc yn meithrin gobaith a hyder wrth hawlio'u dyfodol;
- dros y sawl sy'n dioddef oherwydd trais ar sail rhywedd, ac y bydd y dioddefwyr yn cael nerth i hawlio'u bywydau yn ôl rhag y trais hwn gan ddal eu gafael ar eu hunan-barch a'u gobaith;
- dros waith Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe sy'n dod â gobaith ac yn rhoi nerth i'r rhai sy'n teimlo'n ddigalon oherwydd tlodi'r wlad;
- dros lwyddiant yr apêl enwadol a'r ffordd y mae eglwysi Cymru'n manteisio ar y cyfle i sefyll ochr yn ochr â phobl Zimbabwe er mwyn rhoi gwell gobaith iddynt.


## Capel Blaenannerch yn cofio Evan Roberts a Diwygiad 1904/05

Mae Capel Blaenannerch yn addoldy pwysig yn hanes Diwygiad Methodistaidd 1904/05. Yn ystod gwasanaeth yn y capel ar Fedi 29ain, 1904, tra oedd Seth Joshua, a sefydlodd y Mission Hall yng Nghastell-nedd, yn pregethu, cafodd gŵr ifanc o'r enw Evan Roberts brofiad ysgytwol a gweiddi: 'Plyg fi, plyg fi' (Bend me, Lord).

Eleni, mae'n 120 mlynedd ers y digwyddiad hwnnw ac felly priodol yw ein bod yn nodi'r ffaith trwy drefnu oedfa arbennig. Bydd y Parch. Ifan Mason Davies yn ein hannerch, Dr Eryn White yn rhoi cefndir a hanes y Diwygiad a'r Parch. Llunos Gordon yn offrymu gweddi.

Mae'r Dr Rhidian Griffiths wedi paratoi ychydig o hanes yr emynau y byddwn yn eu canu, a bydd llawer o aelodau'r capel yn cymryd rhan hefyd.

Mae croeso cynnes i bawb i ymuno â ni ar Fedi 29ain am 2.30 y prynhawn.




Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru